# Cosb Anghyfreithlon

## Canllawiau Caerdydd

*Diweddarwyd: Rhagfyr 2024*

## Cyd-destun

### Cyn 21 Mawrth 2022

Mae cosb gorfforol wedi bod yn anghyfreithlon mewn ysgolion, cartrefi plant, cartrefi gofal maeth awdurdodau lleol a lleoliadau gofal plant ers peth amser. Fodd bynnag, os yw rhiant, gofalwr neu unigolyn sy'n gweithredu in loco parentis mewn lleoliad heb ei reoleiddio (e.e. lleoliadau dysgu rhan-amser neu leoliadau addoli, chwarae a hamdden) yn cael ei gyhuddo o ymosodiad cyffredin wrth ofalu am blentyn sydd yn ei ofal, gallai geisio amddiffyn ei weithredoedd drwy ddweud bod y gosb yn rhesymol.

### O 21 Mawrth 2022

Pan ddaeth Adran 1 o Ddeddf Plant Cymru i rym, gwnaeth ddileu'r amddiffyniad cosb resymol. O'r adeg hon, mae unrhyw gosb gorfforol yn erbyn plant yn anghyfreithlon yng Nghymru, gan gynnwys trwy law rhieni, gofalwyr ac unrhyw un sy'n gweithredu in loco parentis mewn unrhyw leoliad yng Nghymru.

Mae'r ddeddfwriaeth hon yn helpu i ddiogelu hawliau plant ac yn anfon neges glir: nid yw cosbi plant yn gorfforol yn cael ei oddef yng Nghymru.

## Deddfwriaeth a Gweithdrefnau

Yn unol â Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020, mae cosbi plant yn gorfforol yn anghyfreithlon yng Nghymru.

Mae dileu'r amddiffyniad "cosb resymol" yn golygu nad oes unrhyw feysydd llwyd; mae cosb gorfforol yn anghyfreithlon yn ddigamsyniol. Yn ôl y gyfraith, ystyrir bod cosbi plentyn yn gorfforol yn ymosodiad cyffredin.

Mae'r gyfraith yn berthnasol i bawb yng Nghymru, gan gynnwys ymwelwyr ac mae'n cynnwys pob math o gosb gorfforol, gan gynnwys smacio, taro, slapio ac ysgwyd.

Mae Canllaw Ymarfer Gweithdrefnau Diogelu Cymru wedi'i anelu at ymarferwyr sy'n gweithio gyda phlant (hyd at 18 oed), eu rhieni a'u gofalwyr neu unrhyw un sy'n gweithredu in loco parentis.



Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English

At ddibenion y ddogfen hon, mae'r term "plentyn" yn cwmpasu pob cam o ddatblygiad dynol cynnar, gan gynnwys:

- Babanod heb eu geni (ffetysau)
- 0-1 oed: Babanod (babanod, o'u genedigaeth hyd at un oed)
- 1-12 oed: Plant (plant bach a phlant ifanc, rhwng 1 a 12 oed)
- 13-18 oed: Pobl ifanc (y glasoed a phobl ifanc yn eu harddegau, rhwng 13 a 18 oed)

## Adrodd

### Aelodau'r Cyhoedd

Yn unol â Gweithdrefnau Diogelu Cymru, cynghorir aelodau'r cyhoedd y dylent adrodd i'r Awdurdod Lleol cyn gynted â phosibl pe bai ganddynt bryderon am achos o ymosod ar blentyn. ***Os oes pryderon uniongyrchol ynghylch diogelwch plentyn, rhaid iddynt gysylltu â'r heddlu.***

### Ymarferwyr

Mae gan bartneriaid perthnasol Ddyletswydd i Adrodd am Blant sy'n Wynebu Risg (Adran 130) dan Ran 7 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Mae adran 130(4) yn diffinio "plentyn sy'n wynebu risg" yn blentyn:

a) sy'n cael, neu sy'n wynebu risg o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso neu ddioddef mathau eraill o niwed; ac
b) y mae arno anghenion gofal a chymorth (p'un a yw'r awdurdod lleol yn bodloni unrhyw rai o'r anghenion hynny ai peidio).

Dylai ymarferwyr ddilyn y polisi diogelu ar gyfer y lleoliad lle maent yn gweithio a thrafod unrhyw bryderon am blentyn gyda'u Harweinydd Diogelu Dynodedig. Fodd bynnag, os nad yw'n bosibl cysylltu â'r person hwn am unrhyw reswm dylai'r ymarferydd adrodd ei bryderon yn uniongyrchol i Hyb Diogelu Amlasiantaethol Caerdydd (neu'r Gweithiwr Cymdeithasol dynodedig). Dylai asiantaethau sy'n ymwneud â'r plentyn sydd â phryderon y gallai fod gan y plentyn anghenion gofal a chymorth ofyn am ganiatâd y rhieni i atgyfeirio'r plentyn i Wasanaethau Cymdeithasol Plant yr awdurdod lleol ar gyfer asesiad o'i anghenion.
***Os yw plentyn mewn perygl uniongyrchol neu'n wynebu risg o niwed uniongyrchol, ffoniwch yr Heddlu ar 999. Gellir adrodd troseddau trwy gysylltu â 101 neu ar-lein.***

| |
|---|
| **Hyb Diogelu Amlasiantaethol Caerdydd** – 02920 536 400 (Oriau Swyddfa)<br>**Tîm Dyletswydd Argyfwng Caerdydd** – 02920 788 570 (Y Tu Allan i Oriau) |


Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English

## Rhannu Gwybodaeth

Mae rhannu gwybodaeth yn ganolog i ymarfer diogelu da. Mae'n hanfodol i bob asiantaeth berthnasol gydweithio a thrafod achosion o gosb anghyfreithlon gyda'i gilydd. Mae rhannu gwybodaeth a chydlynu ymdrechion yn sicrhau ymateb cynhwysfawr ac effeithiol i ddiogelu lles y plentyn.

Un o'r amgylchiadau penodol pan fo angen rhannu gwybodaeth yw atal camdriniaeth neu niwed difrifol rhag digwydd i eraill. Pan na chaiff gwybodaeth ei rhannu mewn modd amserol nac effeithiol, gall penderfyniadau o ran sut i ymateb fod yn seiliedig ar gamwybodaeth a gall hynny arwain at ymarfer diogelu gwael a golygu bod plant yn wynebu risg o niwed. Dylai ein hymateb i faterion diogelu fod yn gymesur, canolbwyntio ar y plentyn a bod ar sail amgylchiadau ac anghenion unigol y plentyn.

### Cydweithio

Dylai'r Heddlu, y Gwasanaethau Plant a Chymorth Cynnar roi gwybod i'w gilydd pan fyddant yn dod ar draws achosion sy'n ymwneud â chosb anghyfreithlon. Mae cydweithio rhwng yr asiantaethau hyn yn sicrhau ymateb cynhwysfawr, cymesur a chymorth priodol i'r plentyn dan sylw.

*Sut bydd hyn yn gweithio'n ymarferol?*

**Gwasanaethau Plant (Pob Tîm):** Ar ôl cael gwybod am honiad o gosb anghyfreithlon, dylid rhoi gwybod i Uned Diogelu'r Cyhoedd yr Heddlu drwy e-bost (cardiffvale-ppu@south-wales.police.uk). Mae'n ddefnyddiol cynnwys manylion unrhyw gamau a gymerwyd eisoes neu unrhyw gamau sy'n cael eu cymryd. Os oes angen trafodaeth strategaeth frys, dilynwch y prosesau arferol.

Er enghraifft:

- *Mae'r rhieni wedi cytuno i gael cymorth rhianta a byddant yn cael eu hatgyfeirio i'r Ganolfan Ymyriadau neu Rhianta Caerdydd (nodwch i ba wasanaethau y mae atgyfeiriad yn cael ei wneud a bod ymgysylltu â Rhianta Caerdydd yn wirfoddol.)*
- *Roedd y digwyddiad yn lefel isel ac yn hanesyddol ac nid oes unrhyw bryderon eraill.*
- *Mae'r Gweithiwr Cymdeithasol a ddyrannwyd wedi siarad â'r plentyn ac ni ddatgelwyd unrhyw beth arall.*
- *Mae'r Hyb Diogelu Amlasiantaethol yn teimlo bod angen Asesiad Lles a bydd hyn yn cael ei wneud gan Derbyn ac Asesu.*

**Uned Diogelu'r Cyhoedd:** Ar ôl cael gwybod am honiad o gosb anghyfreithlon (trwy cardiffvale-ppu@south-wales.police.uk), bydd Uned Diogelu'r Cyhoedd yr Heddlu yn cofnodi'r drosedd. Yna bydd yn cael ei benderfynu a oes angen ymchwiliad troseddol. Os oes angen un, ar ei ddiwedd, ystyrir Cymorth Rhianta y Tu Allan i'r Llys os bodlonir y meini prawf (h.y. mae'r rhiant wedi cyfaddef i'r drosedd dan rybudd).

Dylid hefyd ystyried atgyfeirio i gymorth rhianta gwirfoddol gan y Ganolfan Ymyriadau (LH - Ffurflen Atgyfeirio i'r Ganolfan Ymyriadau) neu Rhianta Caerdydd (trwy'r Ffurflen Atgyfeirio Cymorth Cynnar), os yw hyn yn berthnasol ac yn gymesur dan yr amgylchiadau.

*D.S.: Ar bob adeg yn y broses mae angen cynnal cysylltiadau cyfathrebu rhwng asiantaethau a gellir galw cyfarfod brysbennu amlasiantaethol os bernir bod hyn yn briodol.*

*Penderfyniadau gan yr Heddlu mewn Asesiad Cychwynnol:*

Dim Camau Pellach

Datrysiad y Tu Allan i'r Llys

Achosion Troseddol

**Mae'r Heddlu yn ymateb i hysbysiad (trwy'r Uned Diogelu'r Cyhoedd) i roi gwybod am ganlyniad yr asesiad cychwynnol ac i ystyried unrhyw waith ar y cyd (targed 24**



Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English

## Gwneud Penderfyniad

Ar ôl cael gwybod am honiad o gosb anghyfreithlon (trwy cardiffvale-ppu@south-wales.police.uk), bydd lefel angen y plentyn yn cael ei phennu. Gellir defnyddio'r adran hon fel canllaw i benderfynu a oes angen atgyfeiriad ar gyfer Help neu Niwed a'r lefel angen gysylltiedig. Os yw'r pryderon yn gwarantu ymateb Lefel 4 (trafodaeth strategaeth) bydd MASH yn dilyn y broses hon ac yn cynnwys yr holl bartneriaid allweddol. Bydd yr asesiad cychwynnol gan yr Heddlu yn digwydd beth bynnag fo'r lefelau a nodwyd isod a gall fodloni'r meini prawf ar gyfer Cymorth Rhianta y Tu Allan i'r Llys:

| **LEFEL 1**<br>**Anghenion Cyffredinol:** Babanod, plant a phobl ifanc y mae eu hanghenion yn cael eu diwallu gan wasanaethau cynhwysol neu ymateb un asiantaeth syml | **LEFEL 2**<br>**Cymorth Ychwanegol:** Babanod, plant a phobl ifanc sy'n wynebu risg o ganlyniadau gwael ac sydd angen cymorth ychwanegol gan wasanaethau | **LEFEL 3**<br>**Anghenion Cymhleth:** Babanod, plant a phobl ifanc sy'n bodloni'r trothwy ar gyfer Asesiad Statudol neu Gymorth Cynnar | **LEFEL 4**<br>**Anghenion Aciwt:** Babanod, plant a phobl ifanc y mae angen eu diogelu ac y mae angen cymorth dwys arnynt - Trafodaeth Strategaeth |
|---|---|---|---|
| *Enghraifft:* Mae honiad trydydd parti wedi'i wneud ynglŷn â phlentyn.<br><br>Gofynnwyd cwestiynau pellach i nodi'r amserlen a'r cyd-destun a siaradwyd â'r plentyn yn uniongyrchol. Ni fynegwyd unrhyw bryderon pellach, ac ni nodwyd hanes o bryderon. | *Enghraifft:* Mae honiad wedi'i wneud bod cosb gorfforol yn cael ei defnyddio gan rieni / gofalwyr / pobl eraill.<br><br>Gofynnwyd cwestiynau pellach i nodi'r amserlen a'r cyd-destun. Mae'r rhiant/gofalwr yn cyfaddef i'r defnydd o gosb gorfforol lefel isel (e.e. slap ar y pen ôl) fel modd o ddisgyblu. Mae'r rhiant yn ceisio cymorth o ran rheoli ymddygiad.<br>Nid oes unrhyw hanes o bryderon diogelu. | *Enghraifft:* Mae honiad wedi'i wneud bod cosb gorfforol yn cael ei defnyddio gan rieni / gofalwyr / pobl eraill. Gallai'r plentyn fod yn agored i niwed (e.e. anghenion dysgu ychwanegol neu anghenion iechyd corfforol).<br><br>Mae'r plentyn yn honni bod hwn yn ddigwyddiad parhaus ond nid oes unrhyw arwydd o anaf nac ofn sylweddol. Gofynnwyd cwestiynau pellach i nodi'r amserlen a'r cyd-destun. Mae hanes o bryderon diogelu a/neu ffactorau risg cymdeithasol eraill. | *Enghraifft:* Mae gan y plentyn/person ifanc anaf (e.e. marc, clais, crafiad) ac yn honni niwed corfforol.<br><br>Mae'r plentyn yn honni niwed corfforol gydag offeryn (e.e. cebl, gwregys, ffon).<br><br>Efallai bydd y plentyn yn arddangos ofn yng ngofal (neu wrth feddwl am fod yng ngofal) y rhiant/gofalwr/person arall. |



Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English

## Astudiaethau Achos

**Mae gwybodaeth adnabyddadwy wedi'i golygu ar gyfer anhysbysrwydd*

Mae'r astudiaethau achos hyn yn dangos enghreifftiau o atgyfeiriadau lle cafodd atgyfeiriadau eu gwneud oherwydd honiadau o gosb gorfforol:

| **Astudiaeth Achos 1 - Oliver*** | |
|---|---|
| **Atgyfeiriad:** | Wrth liwio gyda'r cynorthwyydd addysgu, Emma, dywedodd Oliver:<br>- Gwnaeth Mami smacio fi’n galed fan hyn (gan bwyntio at ei fraich chwith) a wnaeth hi ddim stopio ac yna doeddwn i ddim yn ffrind Mami.<br>- Gwnaeth fy mami ymladd gyda dadi ac aeth e adref.<br>- Wnaeth Mami ddim gadael i fi fwyta bwyd, roeddwn i mor llwglyd. |
| **Camau a Gymerwyd:** | Galwyd trafodaeth strategaeth:<br>- Roedd y trothwy ar gyfer Ymchwiliad Adran 47 wedi’i fodloni oherwydd honiadau o niwed corfforol, cam-drin domestig posibl ac esgeulustod.<br>- Mae Oliver wedi sôn am ei fam yn ymladd gyda’i dad - mae hanes o Gam-drin Domestig. Mae’r rhieni gyda'i gilydd. |
| **Dysgu:** | **Gellid bod wedi cael mwy o wybodaeth gan yr atgyfeiriwr, fel:**<br>- Unrhyw gyd-destun ehangach i'r pryderon, y problemau a'r cryfderau.<br>- Sut mae Oliver yn teimlo am ei fywyd cartref a sut mae Oliver yn ei wneud yn yr ysgol?<br>- Sut mae’r rhieni’n ymgysylltu â'r ysgol ac a oes pobl gadarnhaol ym mywyd Oliver?<br>- Sut mae Oliver yn ymddangos yn yr ysgol, a oes arwyddion o esgeulustod?<br>- A oes unrhyw sgyrsiau wedi'u cynnal gyda’r rhieni o'r blaen ynghylch problemau a sut gwnaethon nhw ymateb? |



Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English

| Astudiaeth Achos 2 – Sally | |
|---|---|
| **Atgyfeiriad:** | - Dywedodd Sally, "Gwnaeth dad dynnu fy nghlust pan oeddwn i'n 5 oed".<br>- Mae gan Sally anghenion dysgu ychwanegol, 7 oed. Nid oes gan Sally ddealltwriaeth dda o amser.<br>- Nid oedd anaf ac nid oedd Sally yn ymddangos yn bryderus nac yn orbryderus i fynd adref gyda'i mam. |
| **Camau a Gymerwyd:** | - Siaradwyd â'r tad cyn y cyfarfod strategaeth a 'lleihawyd y pryderon'.<br>- Mae gan y fam Awtistiaeth ac mae'n ei chael yn anodd sylwi ar giwiau, er enghraifft pan oedd chwarae yn mynd yn rhy gas. Mae'r tad yn dweud bod hyn wedi digwydd o'r blaen ond nid yw'n digwydd mwyach (roedd atgyfeiriad hanesyddol ynghylch chwarae cas).<br>- Roedd y rhieni yn hapus i gael cymorth a byddent yn cydsynio i Asesiad Lles.<br>- Oherwydd pryderon bod y fam wedi gwrthod cymorth yn y gorffennol ac y gallai wrthod Asesiad Lles yn ddiweddarach, galwyd cyfarfod strategaeth a chynhaliwyd ymchwiliad Adran 47. |
| **Dysgu:** | **Mae Ymchwiliad Adran 47 yn anghymesur ar gyfer yr uchod, a oedd yn bryder hanesyddol. Ni fodlonwyd y trothwy ar gyfer niwed sylweddol ac nid oedd unrhyw resymeg o fewn y drafodaeth strategaeth. Mae diffyg ymddiriedaeth yn y rhieni sy'n ymddangos yn ormesol gan nad yw'n seiliedig ar dystiolaeth.** |


Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English

| Astudiaeth Achos 3 - Amelia* | |
|---|---|
| **Atgyfeiriad:** | Cafodd atgyfeiriad ei wneud a dywedodd Amelia wrth aelod o staff "mae fy mam yn smacio fy mhen ôl".<br><br>Ni nodwyd unrhyw bryderon eraill ac nid oedd unrhyw drafodaethau pellach wedi digwydd. |
| **Camau a Gymerwyd:** | Galwyd trafodaeth strategaeth ac roedd yn amlwg nad oedd unrhyw un wedi cysylltu â'r rhiant i ofyn beth oedd wedi digwydd.<br><br>Roedd y rhiant yn ei chael yn anodd ac roedd angen cymorth. Cafwyd sgwrs i nodi'r cyd-destun. Byddai'r fam wedi bod yn fodlon ymgysylltu ag Asesiad Lles, pe bai'n briodol. |
| **Dysgu:** | **Byddai cysylltu â'r rhiant a'r atgyfeiriwr fel rhan o'r brysbennu wedi dileu'r angen am drafodaeth strategaeth ac Ymchwiliad Adran 47 ac o bosibl hyd yn oed Asesiad Lles yn yr achos hwn.**<br><br>**Roedd hwn yn atgyfeiriad o ansawdd gwael ac nid oedd digon o wybodaeth.** |



Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English

| **Astudiaeth Achos 4 - Ethan*** | |
|---|---|
| **Atgyfeiriad:** | Roedd yr athro yn y dosbarth yn gweithio gydag Ethan a dywedodd yn sydyn, "Ydych chi'n gwybod bod Dad yn fy slapio i".  Atebodd yr athro, "Ydy e? Pam mae'n gwneud hynny?  Atebodd Ethan, "Achos rwy'n ddrwg" felly gofynnodd yr athro, "Beth wyt ti'n ei wneud pan fyddi di'n ddrwg?" ac atebodd Ethan, "Dwi ddim yn gwybod," parhaodd wedyn gyda'r gweithgaredd ac ni ddywedodd unrhyw beth arall. |
| **Camau a Gymerwyd:** | Galwyd trafodaeth strategaeth a chynhaliwyd ymchwiliad Adran 47 gan nad oedd yn hysbys a oedd y plentyn wedi'i anafu:<br><br>- Ymwelodd dau swyddog heddlu mewn iwnifform â'r plentyn 4 oed.<br>- Nid oedd unrhyw dystiolaeth o unrhyw anafiadau.<br>- Ni roddodd y plentyn fwy o wybodaeth.<br><br>Ni chafodd unrhyw gamau pellach eu cymryd. |
| **Dysgu:** | **Byddai ymholiadau cynharach i weld a oedd unrhyw anafiadau, lle mae'r slapiau'n digwydd ac archwilio'r hyn y mae bod yn ddrwg yn ei olygu i Ethan wedi bod o fudd. Byddai'r cyd-destun pellach hwn wedi dileu'r angen am drafodaeth strategaeth ac ymchwiliad Adran 47. Gall brysbennu gyda phartneriaid fod wedi dileu'r angen am drafodaeth strategaeth**<br><br>**Mae angen i ni fel partneriaid oedi, cynllunio ac ystyried y wybodaeth yn llawn, a bod yn glir ynghylch y camau rydym yn eu cymryd a'r rhesymau pam. Os na chysylltir â'r rhieni, gan y byddai'n cynyddu'r risg, mae angen cofnodi hyn o fewn y rhesymeg a gosod camau i adlewyrchu hyn.  Dylai plant sy'n wynebu risg sylweddol o niwed dderbyn ymateb brys bob amser.** |



Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English

## Dysgu o Astudiaethau Achos - beth ellid bod wedi'i wneud yn wahanol?

### *Atgyfeiriwr*

Gallai’r atgyfeiriwr fod wedi cael mwy o wybodaeth gan y plentyn, fel:

- **Ble** oeddet ti ar y pryd, ble wnaeth hyn ddigwydd?
- **Ble** wnaeth 'enw’r person' smacio/taro/tynnu (gan ddefnyddio geiriau'r plentyn – dim cwestiynau arweiniol).
- Os yw'n briodol, gwiriwch am unrhyw anafiadau *(er enghraifft, os yw'r plentyn yn honni anaf nad yw ar ran weladwy o'r corff, ni ellir ei wirio)*.
- **Pryd** wnaeth hynny ddigwydd ddiwethaf?
- **Pa** mor aml mae hyn yn digwydd?
- **Pwy** oedd yno ar y pryd, pwy welodd hyn? (*beth wnaethon nhw ei ddweud?)*
- **Beth** oedd yn digwydd adeg y digwyddiad?
- **Beth** ddigwyddodd nesaf? (*beth ddywedodd y plentyn, beth ddywedodd y gofalwr?)*

Dylid cipio a chyfleu llais y plentyn gan ddefnyddio cwestiynu agored:

- Sut oeddet ti’n teimlo pan ddigwyddodd hynny?
- Sut mae’n teimlo am fynd adref? (*ystyriwch a yw'n ymddangos yn ofnus neu a yw’n dweud nad yw am fynd adref?)*
- Beth mae ymddygiad y plentyn o amgylch y gofalwr yn ei ddangos i ni? A ydyn ni'n gweld perthynas gynnes a chariadus neu a oes pryderon?
- A yw’n teimlo'n ddiogel gartref? Gyda phwy mae’n teimlo'n ddiogel?
- Sut mae'r plentyn yn ymddangos, yn hapus gartref, yn dangos cynhesrwydd emosiynol ac ati.
- Pe bai'r plentyn yn bryderus, wrth bwy fyddai’n dweud?

Dylech bob amser siarad â'ch Gweithiwr Diogelu Dynodedig Proffesiynol (neu'r llinell gyngor i weithwyr proffesiynol), ynghylch a yw'n briodol siarad â'r rhiant.  Os oes angen cyngor, cysylltwch â'r Hyb Diogelu Amlasiantaethol (MASH) ar unwaith ar 029 2053 6490.



Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English

### *MASH*

Fel partneriaeth, gallwn wella ein hymarfer drwy:

- Siarad â'r atgyfeiriwr i drafod yr uchod
- Adolygu unrhyw hanes Gwasanaethau Plant
- Rhoi gwybod i’r atgyfeiriwr am y camau y dylai eu cymryd (h.y. gall fynd adref neu dylid ei gadw yn yr ysgol er enghraifft).
- Siarad â’r rhieni i gael eglurhad o’r hyn a ddigwyddodd a'r cyd-destun.
- Cyfathrebu pa gymorth y gellir ei gynnig.
- Cadarnhau a yw'r rhiant/gofalwr yn fodlon gweithio gyda gwasanaethau (mae angen cydsyniad ar sail gwybodaeth).

Mae'n bwysig deall y materion ehangach, unrhyw bryderon ehangach eraill, unrhyw ffactorau risg ac unrhyw wendidau eraill.

Dim ond os yw'r plentyn yn debygol o fod yn wynebu risg o niwed sylweddol y dylid galw cyfarfod strategaeth neu os bodlonir trothwy niwed sylweddol. Gellir rhannu gwybodaeth â phartneriaid MASH fel rhan o frysbennu 1, heb alw cyfarfod strategaeth.



Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English

## Cymorth

Mae cyngor a chymorth ar gael i annog rheoli ymddygiad cadarnhaol heb ddefnyddio cosb gorfforol. Mewn achosion lle mae'r heddlu'n cynnig datrysid y tu allan i'r llys, mae Cymorth Rhianta y Tu Allan i'r Llys wedi'i deilwra ar gael i atal aildroseddu.

Mae Cymorth Rhianta y Tu Allan i'r Llys yn un o'r cynlluniau dargyfeirio a ddefnyddir gan yr Heddlu i osgoi troseddoli pobl lle mae'r drosedd naill ai'n lefel isel neu'n drosedd gyntaf.

Y nod yw atal rhieni rhag cael eu troseddoli a'u dwyn i'r llys a'u cefnogi i ddatblygu ymatebion rhianta cadarnhaol a fydd yn cael canlyniad cadarnhaol i rieni (e.e. mwy o hyder, a lles) a phlant (e.e. mwy o deimladau o ddiogelwch ac ymlyniad diogel, gwell lles, llai o broblemau emosiynol ac ymddygiadol).

Gall y Ganolfan Ymyriadau Gwasanaethau Plant gynnig cymorth hefyd os yw'r plentyn eisoes yn ymwneud â Gwasanaethau Plant Statudol.

### Diffyg Ymgysylltu

**Cymorth Rhianta y Tu Allan i'r Llys:** Os cytunir y dylid rhoi Cymorth Rhianta y Tu Allan i'r Llys i'r rhiant/gofalwr ond mae diffyg ymgysylltu dilynol, dylid cofnodi diffyg ymgysylltu fel a ganlyn:

1. Mae Rhianta Caerdydd yn ychwanegu diweddariad at y cofnodion rhianta ar Paris.
2. Mae Rhianta Caerdydd yn rhoi gwybod i'r Porth Teuluoedd a fydd yn cofnodi ar gofnod CareFirst y plentyn.
3. Mae Rhianta Caerdydd yn adrodd yn ôl i'r Tîm SWITCH yn yr Heddlu.

**Cymorth Rhianta Gwirfoddol:** Os caiff atgyfeiriad ei wneud i Rhianta Caerdydd (nid ar gyfer Cymorth Rhianta y Tu Allan i'r Llys) lle nodwyd cosb gorfforol ar yr atgyfeiriad a bod diffyg ymgysylltu, yna dylid cofnodi hyn fel a ganlyn:

1. Mae Rhianta Caerdydd yn ychwanegu diweddariad at y cofnodion rhianta ar Paris.
2. Mae Rhianta Caerdydd yn rhoi gwybod i'r Porth Teuluoedd a fydd yn cofnodi ar gofnod CareFirst y plentyn.
3. Dylai Rhianta Caerdydd adrodd yn ôl i'r atgyfeiriwr gyda'r rhesymau dros y diffyg ymgysylltu a'r ymdrechion a wnaed i ymgysylltu.
4. Mae Rhianta Caerdydd yn cysylltu â Rheolwr y Porth Teuluoedd i gytuno ar y camau nesaf. Os oes pryderon o hyd am y teulu ac nad oes modd gwneud penderfyniad, dylid cysylltu â Rheolwr Tîm MASH neu'r Prif Weithiwr Cymdeithasol.

## Rhannu Gwybodaeth

### Atgyfeiriadau i'r Gwasanaethau Plant:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Mae'r honiad cychwynnol yn cael ei dderbyn ym **MASH** | Mae MASH yn ystyried anghenion lles/diogelu | Mae MASH yn rhoi gwybod i'r Heddlu am y canlyniad* i ystyried yr agwedd droseddol ar yr honiad CARDIFFVALE-PPU@South-Wales.police.uk | Os bodlonir y meini prawf, mae'r Heddlu'n gofyn am Gymorth Rhianta y Tu Allan i'r Llys drwy CyswlltCChD@caerdydd.gov.uk |
| Mae'r honiad yn cael ei asesu gan **Derbyn ac Asesu (DaA)** | Mae'r gweithiwr cymdeithasol yn ystyried anghenion lles/diogelu | Mae DaA yn rhoi gwybod i'r Heddlu am y canlyniad* i ystyried yr agwedd droseddol ar yr honiad CARDIFFVALE-PPU@South-Wales.police.uk | Os yw'n briodol, gall DaA wneud atgyfeiriad, gyda chydsyniad, i Rhianta Caerdydd (gan nodi bod yr **Uned Diogelu'r Cyhoedd** wedi cael gwybod) trwy Ffurflen Atgyfeirio Cymorth Cynnar Ar-lein |
| Mae'r honiad cychwynnol yn cael ei dderbyn gan y **Tîm Ardal** | Mae'r gweithiwr cymdeithasol yn ystyried anghenion lles/diogelu | Mae'r gweithiwr cymdeithasol yn rhoi gwybod i'r Heddlu am y cam gweithredu bwriadedig* i ystyried yr agwedd droseddol ar yr honiad CARDIFFVALE-PPU@South-Wales.police.uk | Os yw'n briodol, gall y gweithiwr cymdeithasol wneud atgyfeiriad, gyda chydsyniad, i'r Ganolfan Ymyriadau neu Rhianta Caerdydd trwy Ffurflen Atgyfeirio Cymorth Cynnar Ar-lein |

**GWELWCH YR ADRAN CANLYNIADAU**

* Wrth e-bostio'r Uned Diogelu'r Cyhoedd, mae'n ddefnyddiol cynnwys manylion unrhyw gamau a gymerwyd eisoes neu unrhyw gamau sy'n cael eu cymryd, e.e.:

- *Mae'r rhieni wedi cytuno i gael cymorth rhianta gwirfoddol ac mae atgyfeiriad wedi'i wneud.*
- *Mae'r Gweithiwr Cymdeithasol a ddyrannwyd wedi siarad â'r plentyn ac ni ddatgelwyd unrhyw beth arall.*

Ar ôl cael gwybod am drosedd cosb anghyfreithlon, bydd Uned Diogelu'r Cyhoedd yr Heddlu yn cofnodi'r honiad. Yna bydd yn penderfynu a oes angen ymchwiliad troseddol, gan atgyfeirio ar gyfer cymorth rhianta y

## Atgyfeiriadau i Bartneriaid:

Mae'r honiad cychwynnol yn cael ei dderbyn gan **Cymorth Cynnar**

Mae Cymorth Cynnar yn cynghori'r atgyfeiriwr i gysylltu â GPHDAA@caerdydd.gov.uk *(oni bai bod hunan-atgyfeiriad, y dylai'r gweithiwr proffesiynol adrodd amdano i MASH)*

***Os yw plentyn yn wynebu risg uniongyrchol o niwed, rhaid cysylltu â'r Heddlu***

Mae'r honiad cychwynnol yn cael ei dderbyn gan yr **Asiantaeth Bartner**

Mae'r partner yn rhoi gwybod i MASH GPHDAA@caerdydd.gov.uk

***Os yw plentyn yn wynebu risg uniongyrchol o niwed, rhaid cysylltu â'r Heddlu***

Mae'r honiad cychwynnol yn cael ei dderbyn gan yr **Heddlu**

Mae'r Heddlu'n rhoi gwybod i MASH GPHDAA@caerdydd.gov.uk



Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English

## Canlyniadau

### Canlyniad Cymorth Rhianta y Tu Allan i'r Llys

Mae Cymorth Rhianta wedi'i

DIW

Diffyg Ymgysylltu

**Caiff y gwiriadau terfynol eu gwneud gyda'r atgyfeiriwr; wedyn:**

1. Mae'r Porth Teuluoedd yn cofnodi diffyg ymgysylltu ar gofnod CareFirst y plentyn.
2. Mae Rhianta yn ychwanegu diweddariad at gofnodion Rhianta Caerdydd ar Paris.

**Mae'r Heddlu yn ymateb i hysbysiad (trwy'r Uned Diogelu'r Cyhoedd) i roi gwybod am ganlyniad yr asesiad cychwynnol ac i**

### Canlyniad Cymorth Rhianta Gwirfoddol

Nid yw Cymorth Rhianta yn

Mae Cymorth Rhianta wedi'i

DIW

Diffyg Ymgysylltu

**Caiff y gwiriadau terfynol eu gwneud gyda'r atgyfeiriwr; wedyn:**

1. Mae'r Porth Teuluoedd yn cofnodi diffyg ymgysylltu ar gofnod CareFirst y plentyn.
2. Rhoddir Gwybod i'r Atgyfeiriwr

**Caiff y gwiriadau terfynol eu gwneud gyda'r atgyfeiriwr; wedyn:**

1. Mae'r Porth Teuluoedd yn cofnodi diffyg ymgysylltu ar gofnod CareFirst y plentyn.
2. Mae Rhianta yn ychwanegu diweddariad at gofnodion Rhianta Caerdydd ar Paris.
3. Mae Rhianta Caerdydd yn adrodd yn ôl i'r atgyfeiriwr gyda'r rhesymau dros y diffyg ymgysylltu a'r ymdrechion a wnaed i ymgysylltu.
4. Mae Rhianta Caerdydd yn siarad â Rheolwr y Porth Teuluoedd i gytuno ar y camau nesaf. Os oes pryderon o hyd am y teulu ac nad oes modd gwneud penderfyniad.

**Mae'r Heddlu yn ymateb i Hysbysiad (trwy'r Uned Diogelu'r Cyhoedd) i roi gwybod am ganlyniad yr asesiad cychwynnol ac i**



Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English

## Cwestiynau Cyffredin

### Beth yw Cymorth Rhianta y Tu Allan i'r Llys?

Cymorth Rhianta y Tu Allan i'r Llys yw un o'r cynlluniau dargyfeirio a ddefnyddir gan yr Heddlu i osgoi defnyddio'r llysoedd, ac felly yn troseddoli pobl lle mae'r drosedd naill ai'n lefel isel neu'n drosedd gyntaf. Mae enghreifftiau eraill o ddargyfeiriadau y tu allan i'r llys yn cynnwys gwasanaethau cymorth/addysg cyffuriau ac alcohol neu gwrs ymwybyddiaeth dioddefwyr ar gyfer lladrad, difrod neu ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Mae Cymorth Rhianta y Tu Allan i'r Llys yn gynllun dargyfeiriol a ariennir gan Lywodraeth Cymru i weithio'n benodol gyda rhieni/gofalwyr yn dilyn digwyddiad lle mae cosb gorfforol wedi'i defnyddio ar ôl y newid yn y gyfraith ar ôl 21 Mawrth 2022.

Y nod yw atal rhieni rhag cael eu troseddoli a'u dwyn i'r llys a'u cefnogi i ddatblygu ymatebion rhianta cadarnhaol a fydd yn cael canlyniad cadarnhaol i rieni (e.e. mwy o hyder, a lles) a phlant (e.e. llai o broblemau emosiynol ac ymddygiadol). Nod y gwaith hwn gyda rhieni yw lleihau'r defnydd o gosb gorfforol, gan leihau aildroseddu yn y dyfodol a ddylai yn y pen draw gael effaith gadarnhaol ar eu rhagolygon cymdeithasol ac economaidd tymor hwy.

### Sut mae rhieni yn cael Cymorth Rhianta y Tu Allan i'r Llys?

Dim ond trwy atgyfeiriad gan yr Heddlu y mae rhieni yn cael Cymorth Rhianta y Tu Allan i'r Llys. Os bydd yr Heddlu'n derbyn adroddiad bod plentyn wedi cael ei gosbi'n gorfforol gan oedolyn, bydd yn ymchwilio i'r adroddiad ac yn penderfynu pa gamau i'w cymryd, os o gwbl, yn seiliedig ar ffeithiau ac amgylchiadau unigol yr achos.

Ym mhob achos, bydd yr heddlu a/neu Wasanaeth Erlyn y Goron (GEG) yn cynnal dau brawf:

- A oes digon o dystiolaeth i roi rhagolwg realistig o erlyniad?
- A yw erlyniad er budd y cyhoedd?



Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English

Os bydd yr heddlu'n penderfynu cymryd camau pellach (e.e. lle mae digon o dystiolaeth a lle ystyrir bod hynny er budd y cyhoedd), bydd yn pennu'r datrysiad mwyaf addas sy'n briodol i'r amgylchiadau ac yn gymesur â'r drosedd a gyflawnwyd. Dyma pryd y bydd Datrysiad y Tu Allan i'r Llys yn cael ei ddefnyddio a bydd atgyfeiriad i Rhianta Caerdydd yn cael ei dderbyn.

### Beth fydd Cymorth Rhianta y Tu Allan i'r Llys yn ei gynnwys a pha mor hir y bydd angen ymwneud ag?

Mae'r ymyrraeth a ddarperir gan Rhianta Caerdydd yn ymyrraeth bwrpasol a ddarperir ar sail 1 i 1.  Mae'n 8 wythnos o hyd. Mae'n cynnwys elfennau craidd a amlinellwyd gan Lywodraeth Cymru isod:

- Rhesymau pam mae rhiant wedi defnyddio cosb gorfforol.
- Y newid yn y Gyfraith.
- Ymchwil sy'n ymwneud â disgyblaeth gadarnhaol.
- Edrych ar sbardunau a chefnogi rheolaeth emosiynol.
- Meithrin perthynas gadarnhaol rhwng rhieni a phlant.
- Disgwyliadau datblygiadol a strategaethau ar gyfer ffordd gadarnhaol o reoli ymddygiad.

Yn ogystal ag elfen bwrpasol wedi'i theilwra i'r anghenion neu'r teulu.

### Pa gymorth arall sydd ar gael i rieni sy'n defnyddio cosb gorfforol?

Dim ond trwy atgyfeiriad gan yr Heddlu y mae rhieni yn cael Cymorth Rhianta y Tu Allan i'r Llys.Os na chaiff atgyfeiriad ei wneud ar gyfer Cymorth Rhianta y Tu Allan i'r Llys, mae opsiynau cymorth eraill ar gael:

- Gellid atgyfeirio i Cyngor a Chymorth i Deuluoedd Caerdydd ar gyfer Gwasanaethau Atal ac Ymyrryd yn Gynnar (atgyfeiriadau trwy'r Porth Teuluoedd trwy'r Ffurflen Atgyfeirio Cymorth Cynnar (caerdydd.gov.uk)). Gallai hyn gynnwys cyfeirio i amrywiaeth o wasanaethau.
- Mae Rhianta Caerdydd yn cynnig ystod o wasanaethau ymyrraeth gynnar sydd i'w gweld yma: Llyfryn Rhianta Caerdydd 2022 (atgyfeiriadau trwy'r Porth Teuluoedd)
- Gellid atgyfeirio i'r Ganolfan Ymyriadau (os yn ymwneud â Gwasanaethau Plant Statudol)


Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English

## Rôl y Porth

Os yw gweithiwr proffesiynol yn sôn am ddigwyddiad cosb gorfforol ar ôl 21 Mawrth 2022, dylai'r Swyddog Cyswllt ofyn i'r gweithiwr proffesiynol gyflwyno ffurflen atgyfeirio amlasiantaethol i MASH.

Pe bai rhiant yn cysylltu â'r Porth gyda hunanatgyfeiriad byddai hyn yn cael ei ystyried yn ddatgeliad a dyletswydd y swyddog cyswllt fyddai dilyn gweithdrefnau diogelu.

## Beth yw rôl Rhianta Caerdydd wrth dderbyn atgyfeiriad?

Os oes sôn am ddigwyddiad cosb gorfforol ar ôl 21 Mawrth 2022 yn yr atgyfeiriad a dim gwybodaeth am atgyfeiriad yn cael ei anfon i MASH nac am e-bost yn cael ei anfon i'r Uned Diogelu'r Cyhoedd (a chanlyniad hyn), yna yn y cyfnod Brysbennu dylid mynd yn ôl at Swyddog Cyswllt y Porth a chadarnhau hyn.

Os nad oes unrhyw atgyfeiriad i MASH wedi cael ei wneud yna dylid cysylltu â'r atgyfeiriwr i gasglu mwy o wybodaeth am hyn. Dylid rhoi gwybod am y newid yn y gyfraith a bod angen i'r atgyfeiriwr gyflwyno atgyfeiriad i MASH (neu gysylltu â'r Heddlu os oes risg uniongyrchol o niwed) neu os yw'r atgyfeiriwr yn y Gwasanaethau Plant, yna dylid dilyn y broses i gysylltu â'r Uned Diogelu'r Cyhoedd.

## Beth os bydd digwyddiad cosb gorfforol ond nid yw'r Heddlu'n ymwneud ag ef? A ellir ystyried Datrysiad y Tu Allan i'r Llys?

Yr unig ffordd o gael Cymorth Rhianta y Tu Allan i'r Llys, ymyrraeth Rhianta Caerdydd ynghylch cosb gorfforol, yw trwy'r Heddlu drwy Ddatrysiad y Tu Allan i'r Llys. Mae'r llwybr atgyfeirio hwn wedi'i amlinellu yn y canllawiau cyllid a ddarperir gan Lywodraeth Cymru. Ein cyngor fyddai cysylltu'n uniongyrchol â'r Heddlu i weld a ellir ystyried hyn gan fod dyletswydd i ymchwilio a chefnogi rhieni i gael mynediad i'r rhaglen hon.


Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English

## Beth yw'r gwahaniaeth rhwng cosb gorfforol a cham-drin corfforol?

Nid oes gwahaniaeth syml, a byddai cyd-destun y digwyddiad yn allweddol wrth wahaniaethu rhwng cosb gorfforol anghyfreithlon a cham-drin corfforol.

Mae llawer o fathau o gosb gorfforol. Gall hyn olygu smacio, taro, slapio ac ysgwyd. Ond mae mathau eraill hefyd. Nid yw'n bosibl rhoi rhestr benodol o'r hyn sydd gyfystyr â chosb gorfforol oherwydd gall gynnwys unrhyw beth lle mae plentyn yn cael ei gosbi gan ddefnyddio grym corfforol.

Mae cam-drin corfforol yn cael ei amlinellu yng Nghanllaw Ymarfer Gweithdrefnau Diogelu Cymru sydd ar gyfer ymarferwyr sy'n gweithio gyda phlant (hyd at 18 oed), eu rhieni a'u gofalwyr neu unrhyw un sy'n gweithredu in loco parentis.

## Sut ydw i'n cael gwybod am Gymorth Rhianta y Tu Allan i'r Llys?

Mae mwy o wybodaeth i'w chael yma: Stopio cosbi corfforol yng Nghymru | LLYW.CYMRU

Gellir cyfeirio ymholiadau pellach ynghylch trefniadau Y Tu Allan i'r Llys neu gymorth i rieni sy'n defnyddio cosb gorfforol nad ydynt wedi'u hateb uchod drwy Rhianta Caerdydd yn rhiantacaerdydd@caerdydd.gov.uk



Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English

## Rheoli Dogfen

### Cymeradwyaeth

| *Dyddiad* | *Fersiwn* | *Statws (Drafft/Terfynol)* | *Enw, Rôl a Sefydliad* |
|---|---|---|---|
| 09/12/2024 | 1.0 | Terfynol | **Grŵp Rheoli Gweithredol MASH:**<br>• Jade Harrison (Rheolwr Gweithredol) - MASH (Gwasanaethau Plant)<br>• Avril Hooper-Williams (Rheolwr Gweithredol) - Cymorth Cynnar (Gwasanaethau Plant)<br>• Matthew Osborne (Rheolwr Gweithredol) – Diogelu ac Adolygu (Gwasanaethau Plant)<br>• Sian Cadwalladr (Rheolwr Ymgysylltu) – Addysg<br>• Nick Howard (Ditectif Arolygydd – Diogelu Plant) – Uned Diogelu'r Cyhoedd yr Heddlu |

### Hanes y Ddogfen

| *Dyddiad* | *Fersiwn* | *Statws (Drafft/Terfynol)* | *Enw(au) a Rôl(au)* |
|---|---|---|---|
| dd/b | dd/b | dd/b | dd/b |



Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English